# Ymatebion i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Gyllideb Ddrafft

**Argymhelliad 1. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu mwy o fanylion am y meysydd yn eu portffolios y mae Gweinidogion yn rhagweld y bydd angen cyllid pellach arnynt yn ystod 2021-22, pa ddyraniadau pellach y gellir eu gwneud ar gyfer iechyd (gan gynnwys iechyd meddwl), gofal cymdeithasol a chwaraeon yn y gyllideb derfynol ar gyfer 2021-22, a sut y bydd dyraniadau o'r fath yn cael eu blaenoriaethu i gynorthwyo'r ymateb i'r pandemig ac adferiad tymor hwy y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a chwaraeon.**

**Derbyn:** Yn ystod paratoadau ar gyfer y gyllideb, y dull gweithredu fu sicrhau'r effaith fwyaf posibl ar yr adnoddau sydd ar gael i gyflawni gwerthoedd y Llywodraeth, gan gydnabod y bydd angen inni barhau i ddelio ag effaith y pandemig ochr yn ochr â sbarduno newid tymor hwy. Cyfarfu'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd â Gweinidogion yn rheolaidd i drafod materion cyllidebol a phwysau ariannu sy'n dod i'r amlwg gan ystyried materion a cheisiadau ariannu, ochr yn ochr ag effaith COVID-19. Mae Gweinidogion hefyd wedi ystyried tystiolaeth gan y Pwyllgorau a'r rhai a roddodd dystiolaeth iddynt.

O ystyried y dewisiadau anodd yr ydym wedi'u hwynebu, ac wrth inni weithio gyda'n gilydd i ailadeiladu, bydd rheoli cyllideb mewn modd cyfrifol yn hanfodol er mwyn diogelu'r hyn sydd bwysicaf a mynd ar drywydd y newid sydd nid yn unig yn bosibl, ond sy'n hanfodol.

O ganlyniad, rydym wedi mabwysiadu dull gofalus a strategol unwaith eto i ddarparu'r cyllid iawn ar yr adeg iawn. O ran iechyd, gofal cymdeithasol a chwaraeon, rydym yn cydnabod pwysigrwydd enfawr y gwasanaethau hyn ac mae dyraniadau ychwanegol wedi'u gwneud ym mhob maes yn y Gyllideb derfynol i'w cefnogi yn ystod y pandemig ac wrth i ni symud i adferiad. Yn benodol, mae £430m ychwanegol wedi'i ddyrannu i'r GIG i'w cefnogi yn ei ymateb parhaus i'r pandemig. Gan gydnabod rôl hanfodol Cronfa Galedi Llywodraeth Leol, dyrannwyd £206.6m yn ychwanegol i ymestyn y cymorth am 6 mis gan gynnwys cymorth gofal cymdeithasol. Gan gydnabod pwysigrwydd chwaraeon ar gyfer lles corfforol a meddyliol, rydym wedi buddsoddi £2m o gyllid cyfalaf fel rhan o'r pecyn ysgogi cyfalaf i adeiladu a gwella cyfleusterau er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol a pharhaol ar berfformiad a chyfranogiad cymunedol.

Mae lefel ddigynsail o ansicrwydd yn parhau i mewn i 2021-22 ynghylch llwybr y pandemig a'r cyfyngiadau sydd eu hangen mewn ymateb yn ogystal ag effeithiau parhaus perthynas fasnachu newydd y DU â'r UE ochr yn ochr ag ansicrwydd ynghylch y cyllid sydd ar gael gyda chyllideb y DU ar 3 Mawrth. Felly, mae'n bwysig ein bod yn cadw lefel o hyblygrwydd i ymateb i heriau wrth iddynt grisialu'r flwyddyn nesaf gyda'r weinyddiaeth newydd.

**Goblygiadau ariannol:** Bydd y rhain yn cael eu gosod allan yn y Gyllideb Derfynol sydd i'w chyhoeddi ar 2 Mawrth

**Argymhelliad 2. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion am ei strategaeth ar gyfer buddsoddi'r dyraniad cyfalaf o £382.5m yn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng nghyllideb ddrafft 2021-22.**

**Derbyn:** Mae Rhaglen Gyfalaf GIG Cymru Gyfan wedi'i rhannu rhwng cynlluniau a gymeradwywyd gan y Gweinidog a chyllid dewisol.

Mae cyllid cyfalaf dewisol yn cyfateb i tua £84m ar draws yr holl Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG ac mae ar gael ar gyfer

- bodloni rhwymedigaethau statudol, megis iechyd a diogelwch a chod tân;
- cynnal adeiladwaith yr ystâd; a
- gosod cyfarpar newydd yn amserol.

O ran cynlluniau cymeradwy presennol, mae £134m o gyllid eisoes wedi'i gymeradwyo – y prif gynlluniau yw:-

- Gwaith sy'n weddill yn Ysbyty Athrofaol y Faenor gan gynnwys Uned Sterileiddio a Dadhalogi yr Ysbyty;
- Datblygiad Gofal Sylfaenol Sunnyside ym Mhen-y-bont ar Ogwr;
- Y prif waith adnewyddu ar gyfer Llawr Gwaelod a Llawr Cyntaf Ysbyty'r Tywysog Siarl ym Merthyr tua £50m;
- Gwaith Seilwaith Trydanol Mawr yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg;
- Gweddill y gwaith sy'n gysylltiedig â'r cynllun Newyddenedigol yn Ysbyty Glangwili;
- Gwaith gwrth-grogi ar draws ystadau Cwm Taf Morgannwg, Bae Abertawe a Phowys;
- Costau datblygu parhaus sy'n gysylltiedig â gweithredu'r gwasanaeth 111; a
- Diweddaru Blynyddol y Fflyd Ambiwlans

Yn erbyn y £382.5m, ar ôl cynlluniau dewisol a chynlluniau cymeradwy, nid yw £164.5m wedi'i ddyrannu'n ffurfiol eto er bod £124m wedi'i neilltuo ar gyfer y mentrau canlynol:-

Gan gymryd gwersi o gamau cynnar yr ymateb i Covid, mae pwysigrwydd cael seilwaith cadarn wedi dod yn gynyddol glir. I'r perwyl hwnnw, neilltuwyd £62m i sefydliadau wneud cais yn erbyn y meysydd canlynol:-

- Seilwaith safle £10m
- Gwaith Atal Tân £5m
- Seilwaith Iechyd Meddwl £6m
- Rhaglen amnewid Cyflymwr Unionlin £5m
- Adnewyddu Offer Diagnostig £20m
- Gweithfeydd datgarboneiddio £16m

Yn ogystal â hyn, £37m yw'r amcangyfrif presennol ar gyfer gofynion ariannu cynlluniau sy'n rhan o'r Biblinell Gofal Sylfaenol. Bydd yr arian hwn yn golygu y gall y

prosiectau adeiladu newydd yn Nhredegar a Machynlleth symud ymlaen yn gyflym, yn amodol ar Gymeradwyaeth y Gweinidog. Bydd cyllid hefyd yn cael ei ddefnyddio i barhau i gefnogi datblygu achosion busnes ar gyfer Canolfannau Iechyd a Lles yn Nwyrain Casnewydd a Cross Hands ynghyd â Chanolfan Iechyd Da Abertawe sy'n gysylltiedig ag adfywio Stryd Fawr Abertawe.

Neilltuir £25m ar gyfer y buddsoddiad parhaus mewn gwasanaethau digidol ledled Cymru a bydd yn allweddol ar gyfer y gwasanaeth newydd, Gofal Iechyd Digidol Cymru.

Ar ôl yr uchod, mae tua £40.5m o gyllid cyfalaf ar ôl i'w ddyrannu. Nid yw'n syndod bod rhestr hir o gynlluniau sy'n ceisio cyllid drwy Raglen Gyfalaf Cymru Gyfan. Mae'r cynlluniau sy'n cael eu datblygu yn cynnwys Canolfannau Diagnostig a Thriniaeth yn y Gogledd, cynllun Ysbyty Brenhinol Alexandra yn y Rhyl, Genomeg yng Nghaerdydd a'r Fro yn ogystal â mentrau Cymru gyfan gan gynnwys ail-ddarparu Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau (TRAMS) a Golchdy dan arweiniad Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Yn ogystal â'r uchod, byddai angen cyllid cyfalaf hefyd yn gysylltiedig ag unrhyw gytundeb Gweinidogol i Ganolfan Ganser newydd Felindre.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol

**Argymhelliad 3. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion fformiwla ddiwygiedig Townsend a'i heffaith ar yr adnoddau sydd ar gael i bob BILl. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am sut mae'r fformiwla ddiwygiedig yn ystyried gwahanol anghenion ledled Cymru, dadansoddiad o'r goblygiadau ar gyfer yr adnoddau ariannol sydd ar gael i bob BILl sy'n nodi'r gwahaniaeth rhwng yr adnoddau a ddyrennir i bob BILl dan y fformiwla ddiwygiedig o'i gymharu â'r fformiwla flaenorol, ac eglurhad sy'n nodi sut y bydd unrhyw newidiadau yn y dyraniadau i bob BILl yn cael eu cyflawni.**

**Derbyn:** Wrth ymateb i argymhellion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, mae Llywodraeth Cymru wedi disodli fformiwla Townsend gyda fformiwla ddyrannu ddiwygiedig ar gyfer y GIG. Nid oedd fformiwla Townsend yn addas i'r diben bellach, yn bennaf oherwydd bod Arolwg Iechyd Cymru wedi dod i ben, sef y prif ddangosydd o anghenion iechyd a ddefnyddiwyd yn y fformiwla. Goruchwyliwyd y gwaith ar ddiwygio fformiwla gan Grŵp Cynghori Technegol, sy'n cynnwys uwch swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr y GIG, gan ychwanegu cyngor economaidd arbenigol annibynnol.

Mae'r fformiwla sydd wedi'i datblygu yn fformiwla dryloyw a modiwlaidd sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn seiliedig ar y boblogaeth, yr anghenion a'r wybodaeth ariannol sydd ar gael, yn gywir ac yn gyson. Mae wedi'i seilio ar y fethodoleg a fabwysiadwyd ar gyfer dyrannu adnoddau'r GIG yn yr Alban, ac wedi'i haddasu fel y bo'n briodol ar gyfer ein hanghenion yng Nghymru. Mae'r fformiwla wedi'i chymhwyso hyd yma i ddyrannu £110 miliwn ychwanegol i fyrddau iechyd lleol yn 2020-21, a £105 miliwn arall yn 2021-22. Nid oes bwriad ar hyn o bryd i ddefnyddio'r fformiwla i gydraddoli

dyraniadau gwaelodlin – ar hyn o bryd dim ond i ddyrannu cyllid twf newydd y mae'n cael ei ddefnyddio.

Mae'r fformiwla'n berthnasol i'r gwasanaethau ysbytai a chymunedol dewisol craidd a chyllid rhagnodi gofal sylfaenol. Ar hyn o bryd, nid yw'n cwmpasu'r dyraniad iechyd meddwl sydd wedi'i neilltuo, na dyraniadau gofal sylfaenol ar gyfer gwasanaethau meddygol, deintyddol a fferylliaeth gymunedol cyffredinol.

Mae'r fformiwla'n cynnwys yr elfennau canlynol:

- Poblogaeth – prif elfen y fformiwla
- Pwysoliad demograffig – pwysoliad oedran/rhyw sy'n adlewyrchu'r gost wahanol yn ôl oedran a rhyw
- Anghenion Ychwanegol - y ffactorau sy'n rhagweld yr angen am ofal iechyd yn ychwanegol at oedran a rhyw (e.e. afiachedd uwch)
- Costau gormodol na ellir eu hosgoi – er enghraifft, costau cyflenwi gofal iechyd mewn ardaloedd anghysbell a gwledig

Mae'r cyfrannau fformiwla ar gyfer pob BILl o dan y fformiwla ddiwygiedig o gymharu â chyfrannau poblogaeth fel a ganlyn:

| **Bwrdd Iechyd Lleol** | **Cyfran o'r boblogaeth (%)** | **Cyfran o'r Fformiwla (%)** |
|---|---|---|
| Aneurin Bevan | 18.88% | 18.84% |
| Betsi Cadwaladr | 22.14% | 22.58% |
| Caerdydd a'r Fro | 15.91% | 13.30% |
| Cwm Taf Morgannwg | 14.26% | 15.35% |
| Hywel Dda | 12.25% | 12.79% |
| Powys | 4.18% | 4.42% |
| Bae Abertawe | 12.39% | 12.71% |

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol

**Argymhelliad 4. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau'r amserlenni sy'n dynodi erbyn pryd y mae'n disgwyl bod â'r trefniadau diwygiedig ar waith ar gyfer olrhain a monitro gwariant iechyd meddwl gan BILlau.**

**Derbyn:** Dechreuodd gwaith i ddatblygu fformiwla dyrannu adnoddau iechyd meddwl yn gynnar yn 2020, ond cafodd ei oedi yn ystod cyfnod cynnar y pandemig. Ailddechreuodd y gwaith yn yr Hydref 2020, gan gynnwys proses o ymgysylltu â rhanddeiliaid y GIG ac ymarferwyr iechyd meddwl. Mae'r gwaith yn y cam datblygu ar hyn o bryd, gyda'r bwriad o ymgysylltu'n eang eto yn dilyn etholiadau'r Senedd, gyda'r bwriad o ddefnyddio'r fformiwla ddiwygiedig i ddyrannu cyllid twf yn 2022-23.

Ochr yn ochr â'r gwaith ar y fformiwla dyrannu adnoddau, mae gwaith yn cael ei wneud i adolygu'r manylion sydd ar gael ar hyn o bryd ar wariant ar wasanaethau iechyd meddwl a'r canlyniadau a geir yn sgil y gwariant hwnnw. Bydd y gwaith hwn, ynghyd â'r gwaith dyrannu adnoddau, yn golygu y bydd modd rhoi ystyriaeth i ailgyfeirio gwariant yn y dyfodol tuag at wasanaethau a all wella canlyniadau a thargedu'r meysydd a'r sectorau hynny o'r gymuned sydd â'r angen mwyaf.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhelliad 5. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gyhoeddi gwybodaeth fanwl am wariant BILlau ar iechyd meddwl, ac effaith gwariant o'r fath ar ganlyniadau a phrofiad cleifion. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad o lefelau'r gwariant ar wasanaethau ar gyfer oedolion a'r rhai ar gyfer plant a phobl ifanc.**

**Derbyn:** Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyhoeddi manylion am wariant BILlau ar iechyd meddwl yn y Dadansoddiad o Wariant Cyllideb Rhaglenni'r GIG, sydd ar gael fel datganiad ystadegol blynyddol: https://llyw.cymru/cyllidebau-rhaglenni-gwariant-y-gig-ebrill-2018-i-mawrth-2019 yn ogystal â dadansoddiad mwy manwl sydd ar gael ar StatsCymru https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Health-Finance/NHS-Programme-Budget?_ga=2.114547399.1392938797.1613990515-1331613919.1613990515 Mae'r dadansoddiad hwn yn cynnwys manylion o'r gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl oedolion, yr henoed a phlant a'r glasoed.

Yn ogystal, ynghyd â'r gwaith ar y fformiwla dyrannu adnoddau, byddwn yn ystyried pa wybodaeth bellach am wariant iechyd meddwl y GIG y gellir ei chyhoeddi yn y dyfodol.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhelliad 6. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion ynghylch sut y bydd yn monitro ansawdd a chysondeb gwasanaethau iechyd meddwl Haen 0, a sut y bydd yn sicrhau bod gan feddygon teulu hyder ynddynt.**

**Derbyn:** Bydd meithrin capasiti o fewn haen 0 yn cynyddu mynediad at wasanaethau anghlinigol sydd â'r nod o gefnogi'r rhai ag anghenion iechyd meddwl lefel isel. Drwy gydol y flwyddyn hon, rydym wedi gwella'r cynnig hwn, er enghraifft drwy gyflwyno Silvercloud, sydd hefyd yn adeiladu ar weithgarwch a oedd eisoes yn digwydd, er enghraifft, drwy'r cynlluniau peilot rhagnodi cymdeithasol iechyd meddwl a thrwy brosiectau a ariennir o fewn grant iechyd meddwl adran 64. Bydd yn ofynnol i bob prosiect sy'n derbyn cyllid ar gyfer gweithredu ddarparu adroddiadau cynnydd rheolaidd ar gyfer monitro / gwerthuso. Rydym yn cydnabod y bydd angen parhau i ymgysylltu ag atgyfeirwyr hefyd, gan gynnwys meddygon teulu, er mwyn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r hyn sydd ar gael a'r hyn y gellir ei ddisgwyl gan y gwasanaethau hyn.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol

**Argymhelliad 7. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro a fydd y £4m llawn a nodwyd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl Haen 0 o fewn y cyllid o £20m yn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gefnogi gwelliannau pellach mewn gwasanaethau iechyd meddwl yn cael ei ddyrannu i ddarparwyr trydydd sector yn rownd gynigion Ebrill 2021**.

**Derbyn mewn egwyddor.** Er bod bwriad i ddyrannu swm sylweddol o'r arian hwn i gefnogi gweithgarwch a ddarperir gan y trydydd sector, cydnabyddir y gallai elfennau o hyn gael eu dyrannu i'r sector statudol. Mae swyddogion yn gweithio drwy fanylion gweithredu a bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei gwneud ar gael.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol

**Argymhelliad 8. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth bellach am sut y bwriedir i'r modd y bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gwario'r £9m a ddyrannwyd ar gyfer rhoi Cynllun Gweithredu Dementia 2018-22 ar waith yn cael ei fonitro a'i werthuso i sicrhau ei fod yn cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Dylai pob BPRh gyhoeddi'r wybodaeth hon yn barhaus.**

**Derbyn.** Rydym wedi comisiynu gwerthusiad annibynnol mewn perthynas â gweithredu Cynllun Gweithredu ar Ddementia 2018-2022 a bydd y canfyddiadau'n llywio unrhyw ddogfen olynol. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ICF bob blwyddyn i hyrwyddo'r gweithgarwch a gyflawnir gan ranbarthau a byddwn yn gweithio tuag at ddarparu adran fanylach ar wariant Dementia fesul rhanbarth mewn adroddiadau yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn sicrhau bod dolenni i adroddiadau blynyddol unigol y BCA hefyd ar gael yn yr adroddiad hwn.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol

**Argymhelliad 9. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am sut y bydd adnoddau'n cael eu darparu i gyflawni'r Cod Ymarfer Statudol ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth, gan gynnwys sicrwydd y bydd adnoddau ychwanegol ar gael os bydd angen.**

**Derbyn**. Bydd cynllun cyflenwi awtistiaeth yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Cod Ymarfer Statudol ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth pan gaiff ei weithredu o fis Medi 2021. Nid yw'r cod yn creu dyletswyddau ychwanegol, mae'n atgyfnerthu'r gofynion presennol a osodir ar Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf GIG (Cymru) 2006.

Ar gyfer 2021-22 mae cyfanswm o £3.716m ar gael i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau ein polisi awtistiaeth. O'r swm hwn, bydd £3m yn cefnogi parhau i ddarparu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, bydd £598k yn cefnogi staffio a chynllun gwaith blynyddol y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol, a bydd y gweddill yn cefnogi adolygiad galw a chapasiti o wasanaethau niwroddatblygiadol a chefnogaeth i weithredu'r Cod. Bydd cynllun gwaith NAT eleni yn canolbwyntio ar gefnogi

Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd Lleol i baratoi ar gyfer gweithredu'r Cod Ymarfer. Yn ogystal, rhoddir ystyriaeth bellach i'r angen i roi cymorth ychwanegol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu seilwaith awtistiaeth rhanbarthol fel sy'n ofynnol yn rhan pedwar o'r Cod.

Eleni rydym yn cynnal adolygiad o alw a gallu gwasanaethau niwroddatblygiadol, bydd cam dau'r gwaith hwn yn cynnwys datblygu opsiynau ar gyfer gwasanaethau cynaliadwy yn y dyfodol gan gynnwys dadansoddiad o anghenion y gweithlu. Mae ymrwymiad hefyd wedi'i wneud i werthuso effaith y Cod Ymarfer pan fydd wedi bod yn ei le ers dwy flynedd.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol

**Argymhelliad 10. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am weithrediad y Gronfa Unigrwydd ac Arwahanrwydd, a sut y bydd effeithiolrwydd y Gronfa yn cael ei asesu.**

**Derbyn.** Ar hyn o bryd mae swyddogion yn gweithio ar fanylion sut y bydd y gronfa'n gweithredu a sut y caiff effeithiolrwydd ei asesu. Caiff ei lansio yn ystod chwarter cyntaf 2021-22 a bydd £500,000 ar gael ym mhob un o'r ddwy flwyddyn ariannol nesaf.
**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol

**Argymhelliad 11. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am gyfran y gwariant ar wasanaethau i ofalwyr di-dâl sydd (1) yn cael eu darparu'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol a (2) yn cael eu comisiynu gan awdurdodau lleol i gael eu darparu gan y trydydd sector, a bod Llywodraeth Cymru yn gwerthuso a yw'r arian a ddyrennir yn ddigonol i ddiwallu anghenion gofalwyr o ran cymorth yn effeithiol.**

**Derbyn mewn egwyddor.** Nid yw Llywodraeth Cymru yn casglu data ar gyfran gwariant awdurdodau lleol ar ofalwyr di-dâl rhwng gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol, gwasanaethau a gomisiynwyd gan y trydydd sector ac a ddarperir ganddo, a gwasanaethau a gomisiynwyd gan bartneriaid eraill ac a ddarperir ganddynt. Awdurdodau lleol sy'n cefnogi gofalwyr di-dâl o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Gall gofalwyr di-dâl o bob oed elwa'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar wariant awdurdodau lleol mewn meysydd fel addysg a thai, nid gofal cymdeithasol yn unig. Awdurdodau lleol, fel cyrff annibynnol ac atebol yn ddemocrataidd, sy'n gyfrifol yn statudol am reoli eu materion ariannol, gan adlewyrchu mai hwy sydd yn y sefyllfa orau i farnu anghenion lleol eu cymunedau, ac i ariannu a chomisiynu gwasanaethau yn unol â hynny. Mae'r system ariannu sydd gennym ar waith yn rhoi'r hyblygrwydd iddynt wneud y penderfyniadau hynny, wedi'u hysbysu gan eu hasesiad o anghenion eu poblogaethau lleol a digonolrwydd y gwasanaethau sydd ar gael.

Rydym yn cynnal gwerthusiad ffurfiol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i'n helpu i wella dyfodol gofal cymdeithasol yng Nghymru ac

fel rhan o hyn, i ddeall ei heffaith ar ofalwyr di-dâl. Roedd Deddf 2014 yn cael ei mesur drwy ddau ddull gwahanol, ond cyflenwol. Roedd Mesur y Mynydd (MtM), prosiect wedi'i gyd-gynhyrchu a lansiwyd ym mis Ionawr 2018, yn edrych yn benodol i ddadansoddi profiadau pobl o ofal a chymorth. Casglodd tîm MtM tua 500 o straeon yn 2019-20 gan unigolion yng Nghymru. Roedd tua hanner y rhain gan ofalwyr di-dâl. Cyhoeddwyd canfyddiadau'r prosiect, sydd bellach wedi dod i ben, ym mis Rhagfyr 2020. Mae'r gwerthusiad annibynnol, ffurfiol parhaus o Ddeddf 2014 yn cael ei gynnal gan Brifysgol De Cymru, a bydd ar waith tan 2022. Er nad yw'n edrych yn benodol ar ariannu gwasanaethau, bydd yn ystyried gweithrediad ac effaith Deddf 2014 a'r gwahaniaeth y mae wedi'i wneud i ddinasyddion yng Nghymru, yn ogystal ag edrych ar ystyriaethau ariannol Deddf 2014 yn erbyn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol cychwynnol. Bydd y prosiect yn dechrau gwaith maes ym mis Ebrill 2021 ar gyfer y gwerthusiad effaith. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid ac unigolion allweddol, gan gynnwys gofalwyr di-dâl. Cyhoeddir canfyddiadau interim o'r cam hwn ar ddiwedd 2021.

Goblygiadau ariannu – Dim. Bydd asesu goblygiadau posibl ariannu yn y dyfodol mewn perthynas â newidiadau ym maes polisi'r llywodraeth a allai effeithio ar gyllidebau'r llywodraeth a chyrff statudol neu sefydliadau eraill, yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith parhaus o ddatblygu polisi gofalwyr, yr ydym yn bwrw ymlaen ag ef gan gyd-gynhyrchu â rhanddeiliaid. Mae costau'r gwerthusiad a'r ymchwil cysylltiedig yn dod o dan gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 12. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu mwy o fanylion am ei gweledigaeth strategol ar gyfer yr agenda trawsnewid gwasanaethau, a sut y bwriedir ei chyflawni'n ymarferol, ac am sut y bydd yn sicrhau bod y ffocws ar symud tuag at ofal sylfaenol ac atal yn cael ei gyflawni a'i gynnal yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22.**

**Derbyn.**

**Cyllid wedi'i dargedu ar gyfer 2021-22**

Rhan o ffocws strategol *Cymru Iachach* yw creu a chryfhau dulliau cenedlaethol o ymdrin ag agweddau amrywiol ar sut y caiff iechyd a gofal cymdeithasol eu darparu yng Nghymru, gan gynnwys gofal sylfaenol. Mae nifer o brosiectau cenedlaethol nad ydynt yn dod o fewn cwmpas y Gronfa Trawsnewid ond sy'n cyfrannu'n sylweddol at nodau ac amcanion *Cymru Iachach*. O ran cryfhau gofal sylfaenol, mae'r rhain yn cynnwys gweithio gydag AaGIC i ddatblygu galluoedd optometryddion i ddarparu gofal llygaid yn y gymuned (a gynhelir yn bennaf ar hyn o bryd mewn lleoliadau arbenigol), cynllun peilot cenedlaethol podiatreg yn y gymuned, a chyllid ar gyfer cyswllt gofal sylfaenol penodol i sicrhau bod cysylltiadau rhwng *Cymru Iachach* a strategaeth gofal sylfaenol Cymru yn cael eu cryfhau ymhellach. Ym mlwyddyn ariannol 2021-22, rydym wedi neilltuo £167,368 ar gyfer y gweithgareddau hyn ac rydym yn gweithio'n agos ar draws meysydd polisi a gyda phartneriaid rhanbarthol i ddatblygu a chefnogi'r gweithgareddau hyn.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu ysgoloriaethau i staff rheng flaen ddefnyddio technoleg ddigidol a gweithredu llwybrau gofal digidol modern yn y system gofal iechyd yng Nghymru. Mae'r rhain yn cysylltu llythrennedd digidol yn ein cymunedau er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i'r boblogaeth gymryd rhan ddigidol mewn gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a hunangymorth a chyflawni yn erbyn y Rhaglen Strategol ar gyfer Data Gofal Sylfaenol a Digidol. Rydym hefyd yn cefnogi'r GIG i ddiwallu'r anghenion iechyd meddwl newidiol yn eu hardaloedd, gan gynllunio ar gyfer ail don a sicrhau y gall gwasanaethau iechyd meddwl sefydlogi ac adfer ar gyfer yr hirdymor. Cyflwynir gweithgareddau drwy'r rhaglen iechyd meddwl a'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol ar wasanaethau Haen 0/1. Drwy'r Gronfa Trawsnewid byddwn yn cefnogi amrywiaeth o weithgareddau pontio ledled Cymru, gan gynnwys cryfhau clystyrau gofal sylfaenol, parhau i ymgorffori technoleg ddigidol mewn gofal sylfaenol (megis systemau ymgynghori rhithwir ac archebu apwyntiadau), a datblygu ac ymgorffori timau gofal cymunedol integredig yn barhaus. Mae'r gweithgareddau hyn wedi'u cynnwys yn y £41,740,845 sydd wedi'i ddyrannu i'r BPRhau o'r Gronfa Trawsnewid gwerth £50m yn 2021-22.

Yn ystod 2021-22 rydym yn parhau i hyrwyddo graddio modelau gofal newydd, gyda phwyslais arbennig ar wasanaethau sy'n ymwneud ag Adre o'r Ysbyty; Gofal seiliedig ar Le; Iechyd Emosiynol a Meddyliol; a Gofal a Alluogir gan Dechnoleg. Ochr yn ochr â chyflwyno'r Gronfa Trawsnewid, sefydlwyd Cymuned Ymarfer Adre o'r Ysbyty i rannu arferion gorau, heriau a chyfleoedd ar draws BPRhau. Bydd Cymunedau Ymarfer hefyd yn cael eu cynnal dros y misoedd nesaf mewn perthynas â'r tair thema sy'n weddill.

Er mwyn helpu i gyflymu modelau newydd, mae Llywodraeth Cymru yn darparu £6m o'r Gronfa Trawsnewid gwerth £50m yn 2021-22 i helpu i raddio modelau adre o'r ysbyty ar lefel ranbarthol i helpu i sefydlu model gweithio cenedlaethol. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i gefnogi graddio Llwybrau 'Rhyddhau i Adfer yna Asesu' yn gynaliadwy a fydd yn ystyried sut y gellir darparu gweithgarwch yn y gymuned neu yng nghartrefi pobl i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i bobl; hwyluso mwy o ffocws seiliedig ar leoedd ar ddarparu gofal a chymorth ar ôl Covid-19; a lleihau'r angen am ymyriadau gofal sylfaenol ac eilaidd.

**Adolygu ac adnewyddu Camau Gweithredu Rhaglen Drawsnewid Cymru Iachach**
Pan gyflwynwyd Papur y Cabinet 'Cymru Iachach: Ddwy Flynedd yn Ddiweddarach' ym mis Medi 2020 i ddarparu diweddariad cynnydd a sicrhau cytundeb y Cabinet i gyfeiriad Cymru Iachach yn y dyfodol, ymrwymodd Swyddogion Llywodraeth Cymru i adolygu'r 40 cam gweithredu yn *Cymru Iachach* ac i adnewyddu'r rhain yn unol â'r blaenoriaethau a nodwyd ym Mhapur y Cabinet.

Cynhaliwyd yr adolygiad a'r adnewyddu hwn ac mae bellach yn destun ymgynghoriad â rhanddeiliaid cyn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Gweinidog. Fel rhan o'r gwaith adnewyddu rydym wedi drafftio camau gweithredu newydd lle mae'n ofynnol i'r rhain gefnogi sefydlogi ac adfer gwasanaethau yn dilyn Covid-19 yn ogystal ag elfennau o *Cymru Iachach* a ddaeth i'r amlwg drwy'r pandemig. Mae'r camau newydd hyn yn ceisio adeiladu cymunedau gwydn yng

Nghymru a chanolbwyntio ar anghydraddoldebau iechyd, atal clefydau, iechyd meddwl, plant a phobl ifanc a datgarboneiddio.

Bydd cam gweithredu penodol ar atal clefydau yn sicrhau ffocws ar adeiladu ar yr ymddygiadau a'r cyfrifoldeb personol a ddangoswyd yn ystod pandemig Covid-19 i gefnogi pobl i gadw'n iach drwy ddull integredig o wella iechyd a lles y genedl.

Byddwn yn cynnig datblygu llwybrau gofal system gyfan cytûn sy'n seiliedig ar werthoedd ar gyfer atal, canfod, trin a gofal parhaus, gan gynnwys adsefydlu, rheoli poen a gofal diwedd oes, mor agos i'w cartrefi â phosibl fel rhan o adferiad ac ailadeiladu Covid-19, a sicrhau bod mesurau perthnasol yn cael eu datblygu i gofnodi'r canlyniadau sy'n bwysig i gleifion.

Bydd camau pellach yn cael eu cynnwys i gasglu arferion arloesol a ffyrdd newydd o weithio a gyflawnwyd yn ystod Covid-19 a sicrhau bod manteision yn cael eu cynnal yn y system Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

**Argymhelliad 13. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu mwy o fanylion am y trefniadau sydd ar waith i fonitro sut mae'r cyllid a ddyrennir i Chwaraeon Cymru yn cael ei wario, sut mae canlyniadau'n cael eu gwerthuso, a sut mae Chwaraeon Cymru yn rhoi sicrwydd iddi bod y cyllid yn cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru**.

**Derbyn.** Mae Llywodraeth Cymru yn cael diweddariadau rheolaidd drwy gydol y flwyddyn ar fuddsoddiad arian a ddyrennir i Chwaraeon Cymru i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y llythyr cylch gwaith blynyddol. Darperir y diweddariadau hyn mewn cyfarfodydd monitro chwarterol rhwng Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru, ac yn y cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn rhwng y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth a Chadeirydd a Phrif Weithredwr Chwaraeon Cymru. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd Chwaraeon Cymru drwy gydol y flwyddyn. Mae'r buddsoddiad ychwanegol a roddwyd i Chwaraeon Cymru i gefnogi'r heriau sy'n deillio o'r pandemig wedi arwain at fonitro ychwanegol i gefnogi'r trefniadau monitro mwy ffurfiol.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhelliad 14. Rydym yn argymell bod negeseuon iechyd cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn ystod y pandemig yn pwysleisio pa mor bwysig ydyw i bobl o bob oed fod yn gorfforol egnïol, ac yn helpu pobl ledled Cymru i adnabod ffyrdd iddynt barhau i fod yn gorfforol egnïol o fewn cyfyngiadau COVID-19**.

**Derbyn.** Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio'n gyson bwysigrwydd ymarfer corff i les corfforol a meddyliol pobl yn ystod y pandemig. Mae Chwaraeon Cymru yn parhau i hyrwyddo'r cyfleoedd sy'n bodoli i bobl gymryd rhan mewn ymarfer corff ac i barhau i fod yn egnïol drwy eu sianeli cyfathrebu amrywiol, gan gynnwys eu platfformau cyfryngau cymdeithasol amrywiol. Mae rhai cynlluniau, megis y Gronfa Iach ac Egnïol, wedi'u haddasu i gefnogi'r gwaith o ddarparu dewisiadau amgen ar-lein neu ddigidol i bobl wneud ymarfer corff. Rydym wedi buddsoddi mwy na £40m

yn 2020-21 i sicrhau bod y sector yn goroesi'r pandemig ac yn gallu cefnogi pobl i fyw bywydau corfforol egnïol pan fyddwn yn gallu dychwelyd i'n gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

**Goblygiadau ariannol**: Dim

**Argymhelliad 15. Rydym yn argymell, wrth wneud penderfyniadau ynghylch cyfyngiadau COVID-19, a'r rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig, bod Llywodraeth Cymru yn ystyried pwysigrwydd gweithgarwch corfforol ac yn ceisio sicrhau, lle y bo'n bosibl ac yn ddiogel gwneud hynny, nad yw cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol yn cael eu lleihau yn ddiangen.**

**Derbyn.** Mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu pwysigrwydd gweithgarwch corfforol pan fydd cyflyrau iechyd y cyhoedd yn caniatáu hynny. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ymarfer corff i iechyd a lles pobl, a byddwn yn parhau i gydbwyso hynny â'r angen i gadw pobl yn ddiogel ac i ddiogelu'r GIG.

**Goblygiadau ariannol**: Dim

**Argymhelliad 16. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion y cyllid a fydd ar gael, naill ai o'r dyraniadau presennol neu ddyraniadau cyllid pellach, er mwyn sicrhau, wrth i'r cyfyngiadau COVID-19 ddechrau cael eu llacio, bod pobl o bob oed, ac yn enwedig y rhai o gymunedau sy'n ddifreintiedig yn economaidd-gymdeithasol, yn cael eu hannog a'u cynorthwyo i gynyddu eu gweithgarwch corfforol yn ddiogel.**

**Derbyn.** Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal lefel ei buddsoddiad mewn gweithgarwch corfforol drwy chwaraeon. Byddwn yn parhau i adolygu effaith y pandemig ar chwaraeon ar bob lefel a byddwn yn archwilio cyfleoedd i sicrhau cyllid ychwanegol yn 2021-22 i gefnogi'r sector. Bydd ein cynlluniau buddsoddi ar gyfer chwaraeon yn 2021-22 yn cael eu mynegi drwy gynllun busnes Chwaraeon Cymru a'u cyfathrebu drwy ei sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Yn 2021-22, bydd Chwaraeon Cymru yn arwain y sector ac yn cydweithio ag eraill i annog a hwyluso cynnydd mewn gweithgarwch corfforol yn y boblogaeth. Y flaenoriaeth fydd buddsoddi ymdrech ac adnoddau lle mae ei angen fwyaf, lle ceir amrywiadau sylweddol o ran cyfranogiad a lle mae diffyg cyfle neu ddyhead i fod yn egnïol. Mae strategaeth Chwaraeon Cymru yn cael ei llywio gan ddull o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae holl natur y dull ariannu wedi'i ailwampio i ysgogi camau gweithredu yn benodol o fewn y sector i hyrwyddo cyfle cyfartal yn rhagweithiol. Bydd chwaraeon sy'n gallu dangos cyrhaeddiad ac effaith ar draws rhywedd, hil ac anabledd yn cael lefelau buddsoddi uwch fel ffordd o sbarduno camau gweithredu i gefnogi grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae amddifadedd hefyd yn faen prawf allweddol ar gyfer sut y caiff cyllid ei ddyrannu ar draws partneriaid daearyddol, er mwyn ariannu'r cymunedau hynny sydd â'r angen mwyaf yn gymesur.

**Goblygiadau ariannol**: Mae cyllid eisoes ar gael ar gyfer 2021-22 a chaiff ei fonitro'n rheolaidd.

**Argymhelliad 17. Rydym yn argymell bod cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 yn dangos yn gliriach y rôl sylweddol y gall cynyddu cyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol ei chwarae wrth gyflawni'r agenda atal.**

**Derbyn.** Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd cynyddu cyfranogiad ar gyfer lles meddyliol a chorfforol. Bydd strategaeth pum mlynedd Chwaraeon Cymru yn ystyriaeth allweddol i Lywodraeth nesaf Cymru wrth asesu gofynion y gyllideb ar gyfer 2022-23 a thu hwnt.

**Goblygiadau ariannol**: Wrth ddyrannu unrhyw gyllid yn y dyfodol bydd ein dull gweithredu yn parhau i gael ei lywio gan y blaenoriaethau ar gyfer y weinyddiaeth newydd, ymgysylltu â Chwaraeon Cymru a'r sector lleol, tystiolaeth a fforddiadwyedd o fewn dyraniad y gyllideb pan gaiff ei gadarnhau gan Lywodraeth y DU ar gyfer 2022-23.